Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Y Cynllun Seilwaith Arfordirol ar Raddfa Fach

Ebrill 2021



# Cynnwys

Prif Bwyntiau

Adran A: Cyflwyniad

Adran B: y Cynllun Seilwaith Arfordirol ar Raddfa Fach – Pwy sy'n Gymwys

Adran C: Dangosyddion a Chanlyniadau

Adran D: Gwneud cais i'r Cynllun Seilwaith Arfordirol ar Raddfa Fach – Y Broses Ymgeisio Dau Gam

Adran E: Talu'r Grant

Adran F: Monitro Prosiectau

Adran G: Y Drefn Apelio

Adran H: Y Drefn Gwyno

Adran I: Hysbysiad Preifatrwydd: Grantiau Llywodraeth Cymru

Atodiad 1

OGL © Hawlfraint y Goron 2021 WG42427 ISBN Digidol: 978-1-80195-322-1

## Prif Bwyntiau

- Mae pob Awdurdod Porthladd ac Awdurdod Lleol sy'n berchen ar borthladd neu harbwr yng Nghymru yn cael gwneud cais am grant y Cynllun Seilwaith Arfordirol ar Raddfa Fach (SSCIS), cyn belled â'u bod yn bodloni'r amodau a ddisgrifir yn y llyfryn hwn, ar gyfer bod yn gymwys a chael eich dewis.
- Mae'r cynllun yn cynnig buddsoddi cyfalaf mewn seilwaith porthladdoedd a harbyrau i wella perfformiad, cynaliadwyedd, diogelwch a lles cyffredinol diwydiannau Morol a Physgota Cymru yn ogystal ag i'r cyhoedd sy'n defnyddio'r cyfleusterau hyn a'r ardaloedd cyfagos.
- Mae'r grant yn cyfrannu hyd at 100% at fuddsoddiadau cyfalaf mewn offer a pheiriannau fydd wedi'u nodi ymlaen llaw i helpu defnyddwyr y môr i fynd i'r afael â materion amgylcheddol, gweithredol, sicrwydd a diogelwch.
- Y grant uchaf fesul harbwr/porthladd yw £100,000.
- Mae'r ffurflen Datgan Diddordeb wedi'i datblygu'n ddigidol ac mae ar gael ichi ar ffurf electronig ar RPW Ar-lein. Rhaid cyflwyno'r Datganiad trwy RPW Ar-lein erbyn y dyddiadau cau a gyhoeddir.
- I gofrestru manylion eich busnes am y tro cyntaf, mae angen i chi lenwi'r **ffurflen gofrestru ar-lein.** Darllenwch y **Canllaw Sut i Gofrestru** am ragor o fanylion. Os hoffech ragor o wybodaeth, ffoniwch y Ganolfan Cyswllt i Gwsmeriaid ar 0300 062 5004.
- Mae canllawiau ar sut i Ddatgan Diddordeb yn y Cynllun Seilwaith Arfordirol ar Raddfa Fach (SSCI) ar-lein ar gael ar **dudalen Llywodraeth Cymru ar Seilwaith Arfordirol ar Raddfa Fach**.
- Mae cyllideb o £1 miliwn ar gyfer y Rownd Datgan Diddordeb hon.
- Rhaid eich bod yn gwneud cais ar ran Awdurdod Porthladd neu Awdurdod Lleol.
- Rhaid ichi ddilyn canllawiau a gofynion technegol Llywodraeth Cymru ar gyfer Tendro Cystadleuol a Chaffael Cyhoeddus.
- Mae Atodiad A ar ddiwedd y canllawiau hyn yn rhestru'r eitemau cymwys y gallwch fuddsoddi cyfalaf i'w prynu.
- Mae dau gam i'r broses ymgeisio. 4 wythnos i Ddatgan Diddordeb drwy RPW Ar-lein ac, os dewisir eich Datganiad gofynnir ichi lenwi cais llawn y Cynllun Seilwaith Arfordirol ar Raddfa Fach. Bydd hwn ar gael i chi drwy RPW Ar-lein a bydd angen ei gyflwyno o fewn wyth wythnos ar ôl eich dewis.

# Adran A: Cyflwyniad

Mae'r canllawiau hyn yn esbonio'r Cynllun Seilwaith Arfordirol ar Raddfa Fach a'r math o brosiectau a allai fod yn gymwys i gael grant.

## Y Cynllun Seilwaith Arfordirol ar Raddfa Fach

Mae pob Awdurdod Porthladd ac Awdurdod Lleol sy'n berchen ar borthladd neu harbwr yng Nghymru yn cael gwneud cais am grant y Cynllun Seilwaith Arfordirol ar Raddfa Fach.

Mae'r cynllun yn cynnig buddsoddi cyfalaf mewn seilwaith porthladdoedd a harbyrau sy'n cynnig manteision i wella perfformiad, cynaliadwyedd, diogelwch a lles cyffredinol diwydiannau Morol a Physgota Cymru yn ogystal ag i'r cyhoedd sy'n defnyddio'r cyfleusterau hyn a'r ardaloedd cyfagos.

Mae grant o hyd at £100,000 ar gael i Awdurdodau Porthladd, Awdurdodau Lleol a sefydliadau eraill (gyda'r AP neu'r ALl yn arwain) i brynu eitemau cyfalaf o restr a bennir ymlaen llaw yn y pedwar maes ffocws allweddol:

- Amgylcheddol
- Gweithredol
- Diogelwch
- Sicrwydd

Rhaid i ymgeiswyr sicrhau bod eu cais am arian yn cyd-fynd ag o leiaf un neu fwy o'r amcanion isod:

- Bod â'r potensial i ddod â budd cynaliadwy tymor hwy i ddiwydiant y môr a bwyd môr.
- Cefnogi adnoddau y gall pob defnyddiwr morol eu rhannu mewn porthladdoedd.
- Bod yn gyraeddadwy yn y tymor byr i sicrhau manteision yn gyflym o fewn blwyddyn ariannol 2021/2022.
- Sicrhau manteision i'r ardal a gwneud gwahaniaeth drwy helpu i gynnal neu greu cyflogaeth.
- Hyrwyddo iechyd a diogelwch o amgylch seilwaith arfordirol yng Nghymru.
- Manteision diriaethol a geir o ganlyniad i'r grant, megis cynnal swyddi neu leihau damweiniau.

## Eitemau sydd ar gael i'w hariannu

Mae rhestr (Atodiad 1) o eitemau wedi'i datblygu ar y cyd â phartneriaid yn y diwydiant i sicrhau bod yr eitemau seilwaith wedi'u dewis am eu perthnasedd i'r diwydiant, eu heffaith a'u manteision i ddefnyddwyr porthladdoedd a'u lles i'r cyhoedd. Gall yr eitemau unigol fod yn fanteisiol hefyd i fwy nag un diwydiant fel hamdden, trafnidiaeth, pysgota a chymunedau arfordirol. Er enghraifft; mae ffenders yn diogelu pob math o gychod sydd wedi'u hangori, hefyd mae unedau diffibriliwr yn dod â manteision iechyd i ddefnyddwyr y porthladd a'r gymuned arfordirol.

Rhaid dewis o leiaf un eitem o faes ffocws yr Amgylchedd ac un eitem o faes ffocws Diogelwch fel rhan o'r cais. Os na fyddwch wedi bodloni'r gofyn hwn, caiff eich cais ei wrthod.

## Ni fydd cyllid ar gael ar gyfer:

- Eitemau sydd eu hangen i fodloni safonau rheoleiddio
- Gweithgareddau sydd y tu allan i amserlen cyllido'r grant
- Eitemau nad ydynt wedi'u nodi yn y rhestr eitemau seilwaith

Cyllid yw hwn ar gyfer prynu'r offer am y tro cyntaf yn unig. Y busnes neu'r awdurdod rheoli fydd yn gyfrifol am unrhyw drwyddedau, costau dilynol a chynnal a chadw.

### Costau Anghymwys

Os gwelir bod gwaith wedi'i ddechrau cyn derbyn contract y Cynllun Seilwaith Arfordirol ar Raddfa Fach, bydd Llywodraeth Cymru naill ai'n gwrthod y gwaith a ddechreuwyd ac yn caniatáu i'r ymgeisydd barhau â'r rhan gymwys o'r cais, neu'n gwrthod y cais cyfan.

Dyma enghreifftiau o waith sydd wedi'i ddechrau:

- Arwyddo contract â rhwymedigaeth gyfreithiol (h.y. gyda chyflenwr ac ati);
- Prynu offer a deunydd – a'u cymryd i'r safle;
- Talu blaendal / ysgwyddo costau mewn cysylltiad â'r cais cyn bod y grant yn cael ei gymeradwyo.

## Adran B: y Cynllun Seilwaith Arfordirol ar Raddfa Fach – Pwy sy'n Gymwys

### I fod yn gymwys:

- Byddwch wedi'ch cofrestru gyda Llywodraeth Cymru ac wedi cael Cyfeirnod Cwsmer (CRN). Byddwch wedi'ch cofrestru gydag RPW Ar-lein. I gofrestru manylion eich busnes am y tro cyntaf, mae angen i chi lenwi'r **ffurflen gofrestru ar-lein**. Darllenwch y **Canllaw Sut i Gofrestru** am ragor o fanylion. Gellir gwneud y mwyafrif helaeth o newidiadau i fanylion busnes ar-lein. Fodd bynnag, efallai y bydd angen rhagor o fanylion ar Lywodraeth Cymru ar gyfer newidiadau mawr. Cysylltwch â'r Ganolfan Cyswllt Cwsmeriaid ar 0300 062 5004 i gael rhagor o wybodaeth.
- Rydych yn Awdurdod Porthladd neu'n Awdurdod Lleol. Mae Llywodraeth Cymru yn annog ceisiadau ar y cyd gan gymdeithasau'r sector o dan arweiniad y Porthladd neu'r Awdurdod Lleol priodol er mwyn sicrhau bod anghenion y sector defnyddwyr morol a Physgodfeydd yn cael eu diwallu ledled Cymru.
- Gan y gallai Awdurdodau Porthladdoedd ac Awdurdodau Lleol fod yn berchen ar fwy nag un porthladd neu harbwr, mae'r cynllun yn disgwyl i Awdurdodau Lleol neu Borthladdoedd gyflwyno mwy nag un cais, ond dim ond un cais a dderbynnir fesul harbwr neu borthladd.

### Trwyddedau morol, caniatâd cynllunio, rheoliadau adeiladu, caniatadau a thrwyddedau amgylcheddol

Os yw ymgeisydd yn bwriadu gosod eitem cyfalaf y bydd angen trwydded a/neu gytundeb arni, rydym yn ei gynghori i holi'r awdurdod trwyddedu perthnasol, Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC), ei Awdurdod Lleol (ALl) neu asiantaeth arall gan y gallai fod angen caniatâd i wneud rhywfaint o'r gwaith.

Rhaid i ymgeiswyr gael unrhyw ganiatâd cynllunio angenrheidiol a chadw at unrhyw ofynion statudol perthnasol eraill. Dylent ofalu nad yw'r cynigion yn torri unrhyw is-ddeddfau, yn rhwystro hawliau tramwy, yn effeithio ar bibau nwy neu olew ac ati, yn niweidio'r cefn gwlad nac yn llygru.

Mae Llywodraeth Cymru'n deall, mewn rhai achosion, na all ymgeisydd gael pob un yn barod cyn gwneud cais, felly yn yr achosion hynny derbynnir ceisiadau cyn y cytundebau angenrheidiol. Fodd bynnag, bydd gofyn rhoi disgrifiad manwl o'r cytundebau hyn yn y cais a bydd rhaid eu cael cyn i'r prosiect ddechrau. Bydd methu â chael y trwyddedau a'r cytundebau angenrheidiol erbyn y dyddiadau y cytunir arnynt yn y cais yn arwain at dynnu'r grant yn ôl.

Ni chaiff grant ei dalu nes bod dogfennau cymeradwyo'r drwydded a/neu'r cytundeb cynllunio gwreiddiol wedi cyrraedd a'u cymeradwyo gan Lywodraeth Cymru.

## Adran C – Dangosyddion a Chanlyniadau

Mae'r Cynllun Seilwaith Arfordirol ar Raddfa Fach yn gofyn i ymgeiswyr sicrhau un neu fwy o'r canlyniadau sy'n cael eu rhestru isod. Bydd y canlyniadau hynny'n cael eu mesur ar sail y dangosydd sy'n cyfateb iddynt.

### Canlyniadau

- Amgylcheddol – Ailgylchu mwy o sbwriel morol
- Diogelwch – Gostwng nifer y damweiniau sy'n cael eu cofnodi mewn porthladdoedd neu harbyrau
- Sicrwydd – Gostwng nifer y digwyddiadau troseddol (fandaliaeth, lladrad ac ati)
- Gweithredol – Cynyddu nifer y swyddi sy'n cael eu diogelu gan y buddsoddiad.

### Dangosyddion

- Amgylcheddol – Pwysau'r deunydd sy'n cael ei ailgylchu gan y porthladd neu'r harbwr (tunelli)
- Diogelwch – Nifer yr anafiadau a'r damweiniau sy'n gysylltiedig â'r gwaith (uned sengl)
- Sicrwydd – Nifer yr achosion sy'n cael eu cofnodi (uned sengl)
- Gweithredol – Nifer y swyddi sy'n cael eu creu a'u diogelu (cyfateb i amser llawn).

### Cyfradd Uchaf a Throthwy Uchaf y Grant

Swm y grant yw cyfanswm cyfraniad y sector cyhoeddus i'r prosiect buddsoddi, ac fe'i ariennir yn y wlad hon gan Lywodraeth Cymru yn unig.

Os ceir arian cyhoeddus oddi wrth yr UE neu'r DU i helpu â chostau prosiect, caiff swm cyfatebol ei dynnu o grant y Cynllun Seilwaith Arfordirol ar Raddfa Fach.

Y grant mwyaf y gellir ei roi yw **£100,000.**

Dim ond un grant a roddir fesul porthladd neu harbwr o dan y cynllun.

Cyfradd uchaf y grant a gynigir i unrhyw brosiect buddsoddi unigol fydd **100%** o gyfanswm cost y buddsoddiad (heb gynnwys TAW), waeth beth yw maint y fenter na'r lleoliad.

### Rheoli Cymorthdaliadau'r DU

Bydd grantiau a ddarperir o dan y Cynllun Seilwaith Arfordirol ar Raddfa Fach yn cydymffurfio â'r cyfraddau ymyrryd uchaf a'r terfynau cymorth a nodir yng Nghytundeb Masnach a Chydweithredu'r UE-DU (TCA) sy'n darparu bod y DU yn rheoli'i chymorthdaliadau ei hun.

## Adran D: Gwneud Cais i'r Cynllun Seilwaith Arfordirol ar Raddfa Fach – Y Broses Ymgeisio Dau Gam

Mae'r broses ymgeisio wedi'i rhannu'n ddwy ran:  Y cam cyntaf fydd cyflwyno Datganiad o Ddiddordeb.Bydd ymgeiswyr sy'n llwyddo gyda'u Datganiad o Ddiddordeb yn cael eu gwahodd i gwblhau'r ail gam, sef cyflwyno cais llawn.

### Cam cyntaf – Datgan Diddordeb (EOI)

Er mwyn cael gwneud cais i'r Cynllun Seilwaith Arfordirol ar Raddfa Fach, rhaid mynd i **Taliadau Gwledig Cymru (RPW) Ar-lein**. Os oes gennych Gyfeirnod Cwsmer (CRN) eisoes, fe ddylech fod wedi cael llythyr â'ch Cod Defnyddio arno ichi allu agor cyfrif. Os ydych wedi'i golli, ffoniwch y Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid ar 0300 062 5004 (Llun – Iau 8:30 – 17:00, Gwener 8:30 – 16:30) a dweud wrth y cysylltydd beth yw'ch CRN.

Caiff Cod Defnyddio newydd ei anfon atoch. Ar ôl cofrestru, mae'r Datganiad o Ddiddordeb ar gael yn adran "Ceisiadau a Hawliadau" eich cyfrif.

Os oes gennych asiant yn gweithio ar eich rhan, bydd gofyn iddo gofrestru fel asiant ar RPW. Os nad yw wedi gwneud eto, dylai lenwi ffurflen Manylion yr Asiant / Undeb Ffermwyr (Cymru) ar unwaith. Mae'r ffurflen hon ar gael ar **RPW Ar-lein**. Ar ôl i'r ffurflen ein cyrraedd, byddwn yn anfon CRN Asiant ato a Chod Defnyddio RPW Ar-lein.

Bydd gofyn llenwi Ffurflen Ganiatâd Cymdeithasau hefyd i gytuno ar rolau'r cleient. Mae'r ffurflen hon ar gael ar **RPW Ar-lein**. Os oes gennych unrhyw gwestiynau am gofrestru ar RPW Ar-lein neu am Ddatgan Diddordeb, ffoniwch y Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid ar 0300 062 5004. Byddan nhw'n gallu'ch cynghori a rhoi gwybod ichi ble gallwch fynd am help, gan gynnwys help digidol. Darllenwch ganllawiau'r Cynllun Seilwaith Arfordirol ar Raddfa Fach i gael rhagor o wybodaeth am RPW Ar-lein a sut i Ddatgan Diddordeb yn y Cynllun Seilwaith Arfordirol ar Raddfa Fach.

## Datgan Diddordeb

Wrth ddatgan diddordeb, bydd gofyn i chi ddewis o restr o eitemau buddsoddi cyfalaf cymwys a rhoi amcangyfrif o gyfanswm y gost ar gyfer pob eitem a ddewisir. Y grant mwyaf y gellir ei gymeradwyo yw £100,000.

Os byddwch yn datgan diddordeb mewn swm nwy na hyn, caiff ei gapio i £100,000. Fe'ch cynghorir i gael dyfynbrisiau ar gyfer pob eitem fuddsoddi a gyflwynwch yn eich Datganiad. Os dewisir eich Datganiad o Ddiddordeb, ni fydd unrhyw grant a roddir yn fwy na'r hyn a nodir yn eich Datganiad neu a gafodd ei gapio i £100,000. Ni chewch newid yr eitemau rydych wedi'u dewis ar ôl Datgan eich Diddordeb.

Wrth Ddatgan Diddordeb, rhaid dewis o leiaf un eitem o faes ffocws yr Amgylchedd ac un eitem o faes ffocws Diogelwch fel rhan o'r cais. Os na fyddwch wedi bodloni'r gofyn hwn, caiff eich cais ei wrthod.

## Y Broses Sgorio a Dethol

Mae sgôr i bob eitem buddsoddi cyfalaf a restrir yn Atodiad A. Nodir sgôr pob eitem unigol yn Atodiad A.

Pwrpas y broses sgorio yw i Lywodraeth Cymru allu rhoi'r Datganiadau o Ddiddordeb yn eu trefn yn ôl faint o arian sydd ar gael ym mhob cyfnod ymgeisio.

Mae proses ddethol y Cynllun Seilwaith Arfordirol ar Raddfa Fach yn asesu pob Prosiect Gwaith Cyfalaf a gyflwynir gan ALl neu PA. Bydd sgôr yn cael ei neilltuo i bob prosiect a restrir yn y Datganiad o Ddiddordeb yn ôl gallu'r prosiect i wireddu amcanion y Cynllun Seilwaith Arfordirol ar Raddfa Fach. Caiff y Datganiadau eu sgorio a'u rhoi yn eu trefn yn ôl y meini prawf.

Mae'r system sgorio yn cymryd cyfanswm sgôr yr eitemau rydych wedi gwneud cais amdanynt (fel y'u nodir yn Atodiad A) ac yn rhannu'r cyfanswm hwn â nifer yr eitemau y gwnaethoch eu dewis ar eich Datganiad.

I'w ystyried ar gyfer ei ddewis, rhaid i'ch Datganiad o Ddiddordeb fod yn fwy na'r trothwy isaf o 0.0001.

Cewch wybod a gafodd eich Datganiad o Ddiddordeb ei ddewis neu beidio trwy'ch cyfrif RPW Ar-lein

## Datganiadau o Ddiddordeb sydd wedi'u dewis – Cyflwyno Cais Llawn Ar-lein, Cynlluniau Ategol a Dogfennau i'w Gwerthuso

Os byddwn yn dewis eich Datganiad o Ddiddordeb, rhaid i chi dderbyn neu wrthod hynny a dychwelyd y Cais sydd wedi'i gynnwys gyda'r llythyr sy'n eich hysbysu eich bod wedi'ch dewis, i Lywodraeth Cymru drwy'ch cyfrif RPW Ar-lein erbyn y dyddiad a nodir yn y llythyr. Bydd cais llawn y Cynllun Seilwaith Arfordirol ar Raddfa Fach ar gael i chi drwy eich cyfrif RPW Ar-lein i gyflwyno gwybodaeth benodol am eich busnes a'r cynigion buddsoddi.

Mae canllawiau ar gynnwys y cais ar-lein llawn hwn ar gael ar **dudalen Llywodraeth Cymru am y Cynllun Seilwaith Arfordirol ar Raddfa Fach** i helpu ymgeiswyr i baratoi a chwblhau dogfennau i gefnogi'u cais. Cewch fanylion trefn arfarnu a dilysu dechnegol Llywodraeth Cymru ar **dudalen Llywodraeth Cymru am y Cynllun Seilwaith Arfordirol ar Raddfa Fach**.

**Byddwch yn cael wyth wythnos o'r dyddiad dewis i gyflwyno'ch cais llawn a'r dogfennau ategol drwy'ch cyfrif RPW Ar-lein.**

Gofalwch eich bod yn dilyn y canllawiau gan y gallai peidio â gwneud arafu'r broses werthuso.

Dyma'r cynlluniau a'r dogfennau y bydd angen ichi eu cwblhau a'u cyflwyno:

- Cais Llawn y Cynllun Seilwaith Arfordirol ar Raddfa Fach Ar-lein
- Tri dyfynbris ar gyfer pob eitem a ddewisir ar y Datganiad o Ddiddordeb
- Tair Blynedd o Gyfrifon Ardystiedig
- Caniatâd Cynllunio a/neu'r trwyddedau gofynnol, os oes angen.

### Cais Llawn y Cynllun Seilwaith Arfordirol ar Raddfa Fach Ar-lein

Bydd y cais llawn ar-lein ar gael i chi i roi manylion y canlynol:

#### 1. Datganiad Meini Prawf Craidd

Bydd y Datganiad Meini Prawf Craidd yn gofyn am fanylion y canlynol:

- Y Ffit Strategol
- Ariannol a Chydymffurfio
- Cyflawni – Cyflawni Prosiectau
- Cyflawni - Rheoli Risg a Risg
- Rheoli Gweithrediad
- Gwerth am Arian
- Dangosyddion a Chanlyniadau
- Addasrwydd y Buddsoddiad
- Themâu Trawsbynciol
- Cynaliadwyedd Hirdymor

#### 2. Manylion Dyfynbris Eitem Buddsoddi

Bydd rhestr o'ch eitemau buddsoddi fel y'u cyflwynwyd ar y Datganiad o Ddiddordeb llwyddiannus yn cael ei nodi yn eich cais llawn i chi gael darparu manylion y dyfynbrisiau.

- Tri dyfynbris ar gyfer pob eitem buddsoddi.

Rhaid i chi ddarllen canllawiau a gofynion technegol Llywodraeth Cymru ar Dendro Cystadleuol a Chaffael Cyhoeddus trwy'r ddolen isod: **Canllaw technegol i Dendro Cystadleuol a Chaffael Cyhoeddus**

Bydd angen i chi gael a chyflwyno tri dyfynbris ar wahân ar gyfer pob buddsoddiad a dewis un fel y dyfynbris a ffefrir ar gyfer y buddsoddiad.

Dim ond un dyfynbris sydd ei angen os bydd yr eitem yn costio llai na £5,000. Sicrhewch fod y dyfynbrisiau'n cael eu cyflwyno erbyn y dyddiad yn eich llythyr dethol.

- Tair Blynedd o Gyfrifon Ardystiedig.

Rhowch gopïau o gyfrifon y tair blynedd diwethaf.

### Caniatâd cynllunio

Os oes angen caniatâd cynllunio ar eich buddsoddiad, nad yw wedi'i roi eto, rhaid i chi gyflwyno naill ai dogfennau cymeradwyo'r cais cynllunio neu dderbynneb gan yr awdurdod cynllunio lleol bod y cais cynllunio wedi'i gyflwyno.

Ni chaiff grant ei dalu nes bod dogfennau cymeradwyo'r caniatâd cynllunio wedi cyrraedd a'u dilysu gan Lywodraeth Cymru.

Os yw'r awdurdod cynllunio yn credu nad oes angen caniatâd cynllunio ar y prosiect, bydd angen i chi ddarparu tystiolaeth gan yr awdurdod cynllunio i gadarnhau hynny. Caiff y dogfennau hyn eu hasesu gan y tîm asesu yn ôl:

- eu gallu i gyflawni'r amcanion a nodir yn y cynllun,
- elw economaidd ac amgylcheddol y buddsoddiad; ac
- i ba raddau y mae angen y prosiect ar y busnes, yn unol â rheolau cymhwysedd y cynllun.

Bydd yr asesiad yn cynnwys arfarniad llawn o ddiwydrwydd dyladwy ac archwiliadau cymhwysedd, a dim ond ar ôl eu cynnal y caiff penderfyniad terfynol ei wneud o ran cynnig grant.

Nid oes gwarant y caiff y cynnig grant ei gymeradwyo. Bydd y broses arfarnu yn cymryd hyd at 90 diwrnod gwaith o dderbyn eich cynlluniau a'ch dogfennau ategol. Ni fydd yr arfarniad yn dechrau nes bod Llywodraeth Cymru wedi derbyn yr **HOLL** ddogfennau ategol.

### Arfarniad Llwyddiannus

Os caiff eich cynlluniau a'ch dogfennau eu gwerthuso'n llwyddiannus, byddwch yn cael cynnig Contract y Cynllun Seilwaith Arfordirol ar Raddfa Fach drwy'ch cyfrif RPW Ar-lein. Bydd angen i chi dderbyn neu wrthod y cynnig hwn o Gontract o fewn 30 diwrnod drwy ddewis y botwm Derbyn/Gwrthod glas fydd ar eich cyfrif RPW Ar-lein. Os na fyddwch wedi'i dderbyn o fewn 30 diwrnod, caiff y cynnig o gontract ei dynnu'n ôl.

Os ydych yn derbyn eich cynnig o gontract, bydd gofyn ichi hefyd baratoi proffil cyflawni i gadarnhau'r mis a'r flwyddyn y bwriadwch hawlio am bob eitem fuddsoddi a gymeradwywyd ar eich contract.

### Dechrau Gweithio

Peidiwch â dechrau'r gwaith nes eich bod wedi derbyn y contract. Os byddwch yn dechrau gweithio, gall Llywodraeth Cymru wrthod y gwaith a ddechreuwyd neu derfynu'r contract a'ch cael i dalu unrhyw arian a dalwyd yn ôl.

### Hawlio Taliadau a Chwblhau'r Gwaith

Rhaid i chi brynu, cwblhau'r gwaith a hawlio taliadau ar gyfer yr holl eitemau yn eich contract i Lywodraeth Cymru drwy eich cyfrif RPW ar-lein erbyn 31 Mawrth 2022.

### Tynnu'n ôl neu Beidio â Bwrw Ymlaen â Dewis

Os byddwch, ar ôl cael eich dewis, yn penderfynu peidio â bwrw ymlaen â'ch contract neu'n peidio â derbyn y cynnig o gontract o fewn yr amser a ganiateir, ni fyddwch yn cael gwneud cais am y Cynllun Seilwaith Arfordirol ar Raddfa Fach o dan unrhyw rowndiau dilynol.

Os byddwch yn penderfynu tynnu'n ôl o'r contract cyn cwblhau'r gwaith neu os na fyddwch yn cwblhau'r holl waith a gymeradwywyd yn eich contract, ni fyddwch yn cael gwneud cais am y Cynllun Seilwaith Arfordirol ar Raddfa Fach o dan unrhyw rowndiau dilynol ac efallai y bydd yn rhaid i chi ad-dalu unrhyw daliadau a wnaed.

### Amodau'r Grant

Mae'r cynnig o Grant Seilwaith Arfordirol ar Raddfa Fach yn amodol ar delerau ac amodau, gan gynnwys y rhai a nodir isod.

**Gallai peidio â bodloni telerau ac amodau'r dyfarniad arwain at ganslo'ch dyfarniad a/neu adennill y symiau sydd eisoes wedi'u talu i chi, neu leihau cyfanswm y grant sy'n daladwy.**

### Amodau:

- Derbyn contract y Cynllun Seilwaith Arfordirol ar Raddfa Fach o fewn 30 diwrnod i ddyddiad y cynnig a chadw at yr holl ofynion.
- Dim ond yr eitemau sydd wedi'u rhestru yn eich contract y byddwch yn eu prynu, a hynny dim ond ar ôl ichi dderbyn y cynnig o gontract.
- Sicrhewch eich bod wedi prynu, gosod a chwblhau'r **holl** eitemau buddsoddi a restrir yn eich contract cyn i chi hawlio taliad.
- Mae'r dyfarniad yn cael ei wneud ar sail y datganiadau a wnaed gennych chi neu'ch cynrychiolwyr ar y ffurflen gais ac mewn gohebiaeth ddilynol.
- Ni ddylech ddechrau gweithio ar y prosiect nes y byddwch wedi cael awdurdod ysgrifenedig i wneud hynny gan Lywodraeth Cymru.

- Rhaid i chi fodloni unrhyw rwymedigaethau cyfreithiol a osodir arnoch o dan gyfraith y DU.
- Ni chaniateir newid y prosiect, gan gynnwys lleoliad y gweithgaredd, heb gymeradwyaeth ysgrifenedig Llywodraeth Cymru.
- Ni ddylid gwaredu, trosglwyddo na gwerthu unrhyw eitemau a brynir gyda chymorth grant heb ganiatâd ysgrifenedig Llywodraeth Cymru ymlaen llaw, wrth gynnal y prosiect nac am bum mlynedd ar ôl dyddiad gorffen y prosiect.
- Mae'n ofynnol i'r ymgeisydd gydymffurfio â'r rheolau ar wariant cymwys fel y nodir yn Nodiadau Cyfarwyddyd perthnasol y Cynllun.
- Cyflwynwch hawliad drwy'ch cyfrif RPW ar-lein gan ddefnyddio'r dudalen hawlio Gwaith Cyfalaf o fewn y dyddiad cau. Ni fydd hawliad yn ddilys nes bod yr holl wybodaeth ategol hefyd wedi'i chyflwyno.
- Cyflwynwch anfonebau cyflenwyr ar gyfer yr holl eitemau buddsoddi a hawlir. Rhaid bod yr anfonebau wedi'u talu a'u dyddio gyda'r dyddiad talu, a chyda datganiad banc yn dangos yr anfoneb a dalwyd. Os gwneir taliad drwy siec, bydd angen copi wedi'i sganio o'r siec ysgrifenedig, cyn ei chyflwyno i'r cyflenwr, yn ogystal â'r datganiad banc.
- Mae'n rhaid cyflwyno hawliadau yn unol â'r amserlen y cytunwyd arni.  Ni chewch newid yr amseriad y cytunwyd arno na gwerth eich hawliadau heb gytundeb ysgrifenedig Llywodraeth Cymru.
- Dylid cwblhau prosiectau o fewn yr amserlen y cytunwyd arni gyda Llywodraeth Cymru. Ni chewch newid hyn heb gytundeb ysgrifenedig Lywodraeth Cymru.
- Rhaid i chi gadarnhau nad yw unrhyw un o'r eitemau a gynhwysir yn y cais yn eitemau newydd o dan hawliad yswiriant.
- Rhaid i chi gadarnhau nad ydych wedi gwneud cais am unrhyw gyllid cyhoeddus arall (boed hynny o ffynonellau'r UE neu'r DU).
- Rhaid i unrhyw gyhoeddusrwydd a roddir i'r prosiect gyfeirio at y rhan a chwaraeir gan Lywodraeth Cymru wrth ei ariannu.
- Rhaid cadw cofnodion sy'n ymwneud â gweithgarwch y busnes a chynnal y prosiect, gan gynnwys yr holl anfonebau gwreiddiol a dogfennau cysylltiedig eraill, megis tendrau neu ddyfynbrisiau cystadleuol, am o leiaf saith mlynedd ar ôl dyddiad gorffen y prosiect fel y nodir yn y llythyr cymeradwyo grant hwn.
- Rhaid i chi ganiatáu i gynrychiolwyr Llywodraeth Cymru, Archwilydd Cyffredinol Cymru a'r Comisiwn Archwilio arolygu'r prosiect. Os gofynnir ichi, rhaid i chi roi gwybodaeth iddynt a/neu adael iddynt weld y dogfennau gwreiddiol sy'n ymwneud â'r prosiect.
- Mae'r wybodaeth a roddir yn y cais ac mewn dogfennau cysylltiedig yn gorfod bodloni gofynion Cod Ymarfer Llywodraeth Cymru ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth, Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004.

**Dylech fod yn ymwybodol bod Llywodraeth Cymru, os byddwch yn llwyddiannus, yn cadw'r hawl i gyhoeddi enw'ch busnes neu gwmni, faint o grant a ddyfarnwyd i chi a chrynodeb o'ch prosiect.**

## Adran E: Talu'r Grant

### Hawlio Taliadau

Gallwch hawlio taliadau interim yn ystod cyfnod eich prosiect. Caiff canllawiau ar sut i hawlio eu rhoi ichi pan gaiff y dyfarniad ei gadarnhau ac yna pan ofynnir ichi hawlio. Dim ond pan fydd Llywodraeth Cymru yn fodlon bod y gwariant perthnasol wedi'i wneud a bod y gwaith wedi'i gwblhau yn unol â'r cynllun y bydd hawliadau'n cael eu talu. Bydd taliadau'n cael eu gwneud drwy drosglwyddiad electronig i'ch cyfrif banc.

Dylid hawlio'r taliad grant terfynol cyn gynted â phosibl ar ôl cwblhau'r gwaith ffisegol ar y prosiect. Rhaid talu'r holl hawliadau terfynol erbyn **31 Mawrth 2022** er mwyn i Lywodraeth Cymru allu talu'r taliad. Os na fyddwch yn hawlio'r holl daliadau, efallai y byddwn yn gofyn ichi dalu yn ôl y grant sydd wedi'i dalu.

Yn ystod oes y grant, mae'n bosibl y byddwn yn archwilio'r hawliadau y byddwch yn eu cyflwyno i sicrhau bod y gwariant yn gymwys ac yn unol â'r hyn a gymeradwywyd yn y cais gwreiddiol. Yn ystod y prosiect, byddwn yn ymweld â'r safle ac yn asesu'r prosiect yn fanwl.

Yn ystod yr ymweliad, byddwn am weld gwybodaeth fel anfonebau gwreiddiol; rhifau cyfresol peiriannau; Tystysgrif cwblhau Rheoliadau Adeiladu (lle bo'n briodol); System Iechyd a Diogelwch gan gynnwys dadansoddi risg; Dogfennau'r Asesiad Risg Tân yn unol â Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005; Trwyddedau morol ac unrhyw gofnodion rheoli statudol eraill y mae'n ofynnol i'r busnes eu cadw.

Caiff y grant ei dalu cyn belled â bod y gwaith yn mynd rhagddo'n ddigonol.

### Hawlio ar gam

Mae cyfrifoldeb arnoch i sicrhau bod ffigurau pob hawliad a gyflwynir yn gywir; ei fod yn ymwneud yn unig â gwariant sydd wedi'i ysgwyddo (mae'r arian wedi mynd o'ch cyfrif banc), bod yr holl eitemau a chostau'n gymwys a bod yr hawliad yn brydlon.

Os nad ydych yn siŵr ynghylch unrhyw beth sydd ei angen arnoch ar gyfer eich prosiect, mae'n bwysig iawn eich bod yn cael cadarnhad ysgrifenedig ei fod yn gymwys **cyn i chi dalu amdano**.

## Adran F: Monitro Prosiectau

Mae'n rhaid monitro'ch prosiect ac yna ar ôl ei gwblhau, rhaid ei werthuso. Gofynnir i chi ddarparu adroddiadau rheolaidd ar ei ddatblygiad a thri mis ar ôl ei gwblhau, adroddiad terfynol ar ei berfformiad pan caiff y prosiect ei werthuso ar sail amcanion a thargedau'r cais a gymeradwywyd. Os na fydd y prosiect wedi taro'r targedau hyn ac os ar sail ei ddatblygiad na fyddai wedi bod yn gymwys am grant o dan y cynllun, gallai camau gael eu cymryd i'ch cael i ad-dalu'r grant.

Un o ofynion y grant yw bod yn rhaid i'r eitemau sy'n cael eu prynu gyda chymorth grant Cynllun Seilwaith Arfordirol ar Raddfa Fach gael eu cadw yn eu lle, mewn cyflwr da sy'n gweithio, a'u defnyddio at yr un diben ag a nodir yn y cais gwreiddiol am bum mlynedd o ddyddiad hawliad olaf y prosiect. Bydd hynny'n sicrhau oes hir i'r prosiect a bod manteision y prosiect yn para.

Rhaid i chi ganiatáu i swyddogion o Lywodraeth Cymru, neu eu cynrychiolwyr, archwilio'r prosiect ar unrhyw adeg resymol o fewn y cyfnod hwn o bum mlynedd.

### Diwedd y Cynllun Seilwaith Arfordirol ar Raddfa Fach

Rhaid cyflwyno pob hawliad i Lywodraeth Cymru erbyn 31 Mawrth 2022. Mae'n rhaid cwblhau holl weithgarwch y prosiect mewn pryd i'r cyfrifon a'r cofnodion allu cael eu harchwilio ac i hawliadau gael eu paratoi a'u cyflwyno erbyn y dyddiad hwnnw.

## Adran G: Y Drefn Apelio

Os bydd cais yn cael ei wrthod, bydd y rhesymau dros hynny'n cael eu disgrifio'n glir. Byddwn yn barod i drafod unrhyw addasiadau y gallai fod eu hangen i wneud y prosiect yn dderbyniol.

Rhaid i apeliadau, gan gynnwys y dystiolaeth, ddod i'n llaw o fewn 60 diwrnod ar ôl dyddiad y llythyr sy'n disgrifio'r penderfyniad rydych am apelio yn ei erbyn.

Rydym yn croesawu gohebiaeth Gymraeg a byddwn yn ateb gohebiaeth yn Gymraeg os mai dyna'ch dymuniad. Ni fydd hyn yn arwain at unrhyw oedi.

## Adran H: Y Drefn Gwyno

Os ydych o'r farn nad ydym wedi dilyn y drefn gywir wrth ymdrin â'ch cais, efallai yr hoffech wneud cwyn yn unol â threfn gwyno Llywodraeth Cymru.

Byddwn yn delio â chwynion yn unol â Chod Ymarfer Llywodraeth Cymru ar Gwynion. Cewch fwy o wybodaeth am sut i wneud ar Wefan Llywodraeth Cymru.

Gallwch gysylltu hefyd ag Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru:

1 Ffordd yr Hen Gae
Pencoed
CF35 5LJ

**Ffôn:** 0300 790 0203

**Gwefan:** Ombwdsmon.Cymru

## Adran I: Hysbysiad Preifatrwydd: Grantiau Llywodraeth Cymru

**Sut y byddwn yn trin unrhyw ddata personol rydych chi'n eu darparu mewn perthynas â'ch cais am grant neu gais am arian grant.**

Llywodraeth Cymru fydd rheolwr y data ar gyfer unrhyw ddata personol rydych chi'n eu darparu mewn perthynas â'ch cais am grant neu gais am arian grant. Bydd y wybodaeth yn cael ei phrosesu fel rhan o'n tasg gyhoeddus (h.y. arfer ein hawdurdod swyddogol i ymgymryd â rôl graidd a swyddogaethau Llywodraeth Cymru) a bydd yn ein helpu i asesu eich cymhwysedd i gael cyllid.

Cyn rhoi cyllid grant i chi, rydym yn cynnal gwiriadau er mwyn atal twyll ac achosion o wyngalchu arian, ac i wirio pwy ydych chi. Fel rhan o'r gwiriadau hyn, mae'n ofynnol i ni brosesu data personol amdanoch chi gydag asiantaethau atal twyll trydydd parti.

Os byddwn ni, neu asiantaethau atal twyll, yn penderfynu eich bod yn peri risg o ran twyll neu wyngalchu arian, efallai y byddwn yn gwrthod darparu'r cyllid grant rydych wedi gwneud cais amdano, neu'n rhoi'r gorau i ddarparu'r cyllid grant presennol i chi.

Bydd yr asiantaethau atal twyll yn cadw cofnod o unrhyw risg o dwyll neu wyngalchu arian, a gallai hyn arwain at bobl eraill yn gwrthod darparu gwasanaethau, cyllid neu gyflogaeth i chi.

**Er mwyn gallu asesu a ydych yn gymwys, efallai bydd gofyn i ni rannu gwybodaeth bersonol am eich cais ag awdurdodau rheoleiddio hefyd fel Cyllid a Thollau ei Mawrhydi, Awdurdodau Lleol, y Pwyllgor Gweithredol Iechyd a Diogelwch a'r Heddlu.**

**Mae'n bosibl hefyd y gall aelod arall o'r cyhoedd ofyn am gael gweld eich gwybodaeth, gan gynnwys eich gwybodaeth bersonol. Wrth ymateb i gais o'r fath, mae'n bosibl y bydd gofyn i Lywodraeth Cymru ryddhau gwybodaeth, gan gynnwys eich gwybodaeth bersonol, yn unol â'i rhwymedigaethau o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, Deddf Gwybodaeth yr Amgylchedd 2004 a'r Ddeddf Diogelu Data 2018.**

Byddwn yn cadw gwybodaeth bersonol mewn ffeiliau yn unol â'n polisi cadw gwybodaeth. Os bydd eich cais yn llwyddiannus, byddwn yn cadw eich data personol am 10 mlynedd ar ôl i unrhyw ddyfarniad o gymorth ddod i ben. Os bydd eich cais yn aflwyddiannus, byddwn yn cadw eich manylion am flwyddyn ar ôl y dyddiad y gwnaethoch eu darparu.

O dan ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych hawl i wneud y canlynol:

- gweld y data personol sydd gan Lywodraeth Cymru amdanoch;
- gofyn inni gywiro unrhyw ddata anghywir;
- gwrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu'r data (dan rai amgylchiadau);
- gofyn i ni ddileu'ch data (dan rai amgylchiadau);
- cyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, sef y rheoleiddwr annibynnol ar gyfer diogelu data

I gael rhagor o fanylion am y wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw a'i defnyddio, neu os ydych am arfer eich hawliau o dan y GDPR, gweler y manylion cyswllt isod

Y Swyddog Diogelu Data
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
CAERDYDD,
CF10 3NQ

**E-bost: dataprotectionofficer@llyw.cymru**

Y manylion cyswllt ar gyfer Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yw:

Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF

**Ffôn:** 01625 545 745 neu 0303 123 1113

**Gwefan: www.ico.org.uk**

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y datganiad preifatrwydd hwn, cysylltwch â Chanolfan Gyswllt i Gwsmeriaid RPW.

# Atodiad 1

| Cod Eitem | Buddsoddiad | Disgrifiad | Maes Ffocws | Sgôr Eitem |
|---|---|---|---|---|
| Rhaid dewis o leiaf 1 eitem o faes ffocws yr Amgylchedd ac un eitem o faes ffocws Diogelwch fel rhan o'r cais. O beidio â bodloni'r gofyn lleiaf hwn, caiff y cais ei wrthod. | | | | |
| **Yr Amgylchedd** | | | | |
| SS01 | Cyfleusterau sbwriel morol | Ardal addas i ddefnyddwyr morol ailgylchu a gwaredu sbwriel morol. Dylid sicrhau mai dim ond at y diben hwn y ceir mynediad i'r ardal a bod trefniadau addas ar waith ar gyfer rheoli'r safle. | Amgylchedd | 100 |
| SS02 | Pwmp Golchi | Pwmp pwysedd uchel i olchi arwynebau a chadw mannau'n lân at ddibenion iechyd a diogelwch a mynd i'r afael â rhywogaethau estron goresgynnol. | Amgylchedd | 80 |
| SS03 | Grid/Pad sgwrio | Seiliau concrid, trawstiau pren, cyflenwad dŵr. Yn mynd i'r afael â rhywogaethau estron goresgynnol. | Amgylchedd | 80 |
| SS04 | Casglu gwastraff sy'n arnofio | Cynhyrchion sy'n helpu i gasglu gwastraff morol a fyddai fel arall yn arnofio mewn porthladdoedd a harbyrau. Gwneud ardaloedd cyhoeddus yn lanach ac yn fwy dymunol, tra'n diogelu bywyd gwyllt ac yn rhoi bri amgylcheddol i borthladdoedd. | Amgylchedd | 60 |
| SS05 | Pecynnau ar gyfer delio â gollyngiadau | Deunydd amsugno olew a phecynnau ar gyfer glanhau olew sydd wedi gollwng ar dir a dŵr. Ni ddylent gymryd lle unrhyw drefniadau y cytunwyd arnynt, dim ond gwella arferion a chanllawiau | Amgylchedd | 50 |
| SS06 | Bŵm Gollyngiadau Morol | Wedi'u dylunio i'w defnyddio mewn argyfyngau mewn porthladdoedd, harbyrau a dociau mewndirol. Ni ddylent gymryd lle unrhyw drefniadau y cytunwyd arnynt, dim ond gwella arferion a chanllawiau. | Amgylchedd | 50 |
| SS07 | Bŵm Sbwriel Morol | Wedi'u dylunio ar gyfer eu defnyddio mewn porthladdoedd, harbyrau a dociau mewndirol. Ni ddylent gymryd lle unrhyw drefniadau y cytunwyd arnynt, dim ond gwella arferion a chanllawiau. | Amgylchedd | 50 |

| Cod Eitem | Buddsoddiad | Disgrifiad | Maes Ffocws | Sgôr Eitem |
|---|---|---|---|---|
| SS08 | Tanc ar gyfer dal olew gwastraff | Tanc ar gyfer storio olew gwastraff (gyda bwnd o'i amgylch). Ni ddylent gymryd lle unrhyw drefniadau y cytunwyd arnynt, dim ond gwella arferion a chanllawiau. | Amgylchedd | 50 |
| SS09 | Sgimiwr Morol | Dylai sgimiwr allu sgimio unrhyw hylifau sydd ar wyneb y dŵr. Ni ddylent gymryd lle unrhyw drefniadau y cytunwyd arnynt, ond gwella arferion a chanllawiau. | Amgylchedd | 50 |
| **Diogelwch** | | | | |
| SS10 | Unedau a chabinetau diffibriliwr | Gosod uned a chabinet diffibriliwr sefydlog sy'n hygyrch i'r cyhoedd. Rhaid rhoi'r eitem mewn lle amlwg. Angen ystyried trefniadau i archwilio'r cabinet yn rheolaidd, i sicrhau ei hygyrchedd a'i ymarferoldeb. | Diogelwch | 100 |
| SS11 | Arwynebau nad ydynt yn llithro | Arwyneb nad yw'n llithro gan sicrhau llwybrau diogel a gwastad ar fannau gweithio (e.e. matiau rwber) | Diogelwch | 100 |
| SS12 | Bwiau achub a mannau i'w cadw | Dylid nodi enw'r porthladd ar fwiau achub a rhoi tâp adlewyrchol arnynt. Dylent fod yn grwn. Bydd angen llinyn taflu | Diogelwch | 100 |
| SS13 | Polion achub | Polion achub ffibr carbon sy'n ymestyn tua 17 metr ac yn pwyso tua 3kg. Lle diogel i'w cadw. | Diogelwch | 100 |
| SS14 | Ysgol Sefydlog | Ar gyfer dringo i mewn ac allan o'r porthladd a'r harbwr. Dylid ystyried eu haddasu i atal llithro ac i'w cadw'n lân. O ddeunydd sy'n gallu gwrthsefyll sgriffio ac na fydd yn rhydu nac yn pydru. | Diogelwch | 90 |
| SS15 | Rheiliau a bolardau harbwr | Yn gwneud mannau'n briodol o ddiogel i bob defnyddiwr. O ddeunydd sy'n gallu gwrthsefyll sgriffio ac na fydd yn rhydu nac yn pydru. | Diogelwch | 90 |
| SS16 | Pedestal SOS | Pedestal sefydlog ar gyfer offer brys. | Diogelwch | 80 |
| SS17 | Goleuadau harbwr | Cyflenwi a gosod goleuadau addas. O ddeunydd sy'n gallu gwrthsefyll sgriffio ac na fydd yn rhydu nac yn pydru. | Diogelwch | 80 |
| SS18 | Pecyn cymorth cyntaf ar gyfer y môr | Pecyn cymorth cyntaf gwydn sy'n ateb y gofyn. Bydd Awdurdod y Porthladd/ Lleol yn gyfrifol bod cynorthwywyr cyntaf wedi'u hyfforddi ac ar gael. | Diogelwch | 70 |

| Cod Eitem | Buddsoddiad | Disgrifiad | Maes Ffocws | Sgôr Eitem |
|---|---|---|---|---|
| **Gweithredol** | | | | |
| SS19 | Treuliwr gwastraff pysgod | Bio-dreulydd ar gyfer defnyddio pysgod gwastraff a/neu ddalfeydd diangen sydd wedi'u glanio, yn unol â'r Rhwymedigaeth Tirlenwi. | Gweithredol | 80 |
| SS20 | Ffender sefydlog neu symudol | Ffender sefydlog neu symudol sydd wedi'i gynllunio i amsugno egni cinetig llong sy'n angori wrth jeti, cei neu gwch arall. | Gweithredol | 80 |
| SS21 | Anodau Harbwr | Newydd/disodli rhai sy'n bodoli eisoes sydd wedi cyrydu. | Gweithredol | 70 |
| SS22 | Clorian ddigidol ar ddoc pysgod | Clorian ddigidol gref i'w gosod wrth y cei i helpu pysgotwyr i gadw cofnodion e.e. pwyso dalfeydd | Gweithredol | 70 |
| SS23 | Arwyddion mewnol ac allanol | Arwyddion a/neu hysbysfyrddau i'w gosod i gynorthwyo a chyfarwyddo defnyddwyr porthladdoedd. Mae angen i'r holl arwyddion fod yn Gymraeg ac yn Saesneg. Dylai'r holl arwyddion allu gwrthsefyll y tywydd a chael eu harddangos mewn mannau amlwg gyda goleuadau digonol. | Gweithredol | 65 |
| SS24 | Craen Davit | Craen Davit sefydlog neu gludadwy wedi'i wneud o ddur, alwminiwm neu ddur di-rwd wedi'i weldio a chompartment caeedig ar gyfer yr injan | Gweithredol | 60 |
| SS25 | Bolardau angori | Bolard angori amlbwrpas sy'n addas ar gyfer angorfeydd amrywiol eu capasiti. | Gweithredol | 50 |
| SS26 | Bwiau angori | Bwiau angori amlbwrpas ar gyfer angorfeydd amrywiol eu capasiti. | Gweithredol | 50 |
| SS27 | Storfeydd oer Storfa abwyd oer | Rhaid i adeilad/sied lle gellir storio abwyd fod yn storfeydd oer, y gellir eu cloi gyda mynediad i'r pysgotwyr i storio eu habwyd yn ddiogel. | Gweithredol | 45 |
| SS28 | Pontŵn | Sefydlog neu symudol ac wedi'i wneud o ddeunydd sy'n gallu gwrthsefyll sgriffio ac na fydd yn rhydu nac yn pydru. Byddai pontŵn newydd yn cynyddu nifer y mannau angori mewn harbwr. Rhaid i'r Awdurdod Porthladd/Lleol ystyried cydsyniadau a thrwyddedau. | Gweithredol | 40 |

| Cod Eitem | Buddsoddiad | Disgrifiad | Maes Ffocws | Sgôr Eitem |
|---|---|---|---|---|
| SS29 | Uned Iâ | Yn gallu cynhyrchu hyd at 5 tunnell o iâ y dydd. Dylid gosod yr eitem hon mewn cyfleuster addas. | Gweithredol | 40 |
| **Sicrwydd** | | | | |
| SS30 | System camerâu diogelwch sefydlog | System Diogelwch Sefydlog fel teledu cylch cyfyng sy'n gwella diogelwch porthladdoedd a harbyrau i'w holl ddefnyddwyr. Yn gallu wrthsefyll dŵr ac ymosodiadau gan fandaliaid. | Sicrwydd | 50 |
| SS31 | Goleuadau diogelwch | Goleuadau diogelwch sefydlog sy'n rhoi golau pwerus â ffocws dros ardal awyr agored benodedig ac adeiladau masnachol. Eu gosod ar wal a chynnwys synwyryddion symudiadau. O ynni'r haul os medrir. | Sicrwydd | 50 |
| SS32 | Ffensys a gatiau diogelwch | Ffensys a gatiau sefydlog i ddiogelu'r ardal neu'r eiddo. | Sicrwydd | 50 |